

## Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y prosesau sy'n arwain at gyhoeddi ystadegau am yr amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth. Mae hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud ag ansawdd fel: cwmpas, cryfderau a chyfyngiadau'r data, perthnasedd a chymaroldeb.

### CYNNWYS

Beth yw'r ystadegau hyn? .....	2
Y cyd-destun gweithredol a pholisi .....	2
Defnyddwyr a sut defnyddir y data .....	3
Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol .....	3
Cryfderau a Chyfyngiadau'r data .....	4
Y cylch prosesu data .....	5
Casglu data .....	5
Dilysu a gwirio .....	5
Cyhoeddi .....	6
Newidiadau i'r datganiad ystadegol .....	6
Statws Ystadegau Gwladol .....	6
Datgelu a chyfrinachedd .....	7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .....	7
Ansawdd .....	7
Perthnasedd .....	7
Cywirdeb .....	8
Amcangyfrifon .....	9
Diwygiadau .....	10
Amseroldeb a phrydlondeb .....	10
Hygyrchedd ac eglurder .....	10
Cymaroldeb .....	11
Cydlyniant .....	12
Lledaenu gwybodaeth .....	13
Dolenni defnyddiol .....	14
Gwerthuso .....	14

## Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae ystadegau'r amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn dangos data misol ar gyfer yr amseroedd aros a'r holl amser y bu pobl yn disgwyl, o gael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i fynd i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG yng Nghymru. Nid yw data am bobl sy'n byw yng Nghymru sydd wedi cael triniaeth neu sy'n disgwyl am driniaeth y tu allan i Gymru wedi'u cynnwys yn y datganiad. Mae'r wybodaeth ar gael yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ac yn ôl swyddogaeth triniaeth. Mae'r triniaethau sy'n cael eu cynnwys yn y ffurflen i'w gweld yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#). Yn ogystal, mae'r amseroedd aros ar gyfer cleifion allanol a chleifion mewnol nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ystadegau'r amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cael eu cyflwyno ar wahân yn y datganiad.

Mae'r ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi law yn llaw â datganiad ystadegol ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi GIG Cymru. Mae dogfen ar sut mae'r cyfresi data hyn yn perthyn ar gael ar ffurf [Cwestiynau Cyffredin](#).

O ran amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, mae unigolyn yn cael ei ddiffinio fel claf sydd wedi cael ei drin os nad oes angen triniaeth mewn ysbyty arno, ar ôl ymgynghori ag arbenigwr ysbyty, neu os bydd triniaeth yn cychwyn. Gallai hyn gynnwys:

- Mynd i'r ysbyty am lawdriniaeth neu driniaeth;
- Dechrau triniaeth nad oes angen aros mewn ysbyty ar ei chyfer (er enghraifft meddyginiaeth neu ffisiotherapi);
- Dechrau gosod dyfais feddygol fel bresys ar y goes; neu
- Dechrau cyfnod o amser wedi'i gytuno arno i fonitro cyflwr y claf i weld a oes angen rhagor o driniaeth.

Nodir y bydd y claf wedi cael triniaeth hefyd os bydd yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr arall ar gyfer parhau â'i ofal. Bydd wedyn yn cychwyn llwybr atgyfeirio a thriniaeth newydd gyda'i ddarparwr nesaf. Ond, os bydd yn cael ei drosglwyddo i gael triniaeth yn ymwneud â'r galon, ni fydd yn cael ei gofnodi fel rhywun sydd wedi cael triniaeth a bydd yr amser aros sydd wedi cronni yn parhau gyda'r darparwr dilynol.

At ddibenion y datganiad, diffinnir diwrnod yr atgyfeirio fel y diwrnod y bydd y llythyr atgyfeirio'n cael ei dderbyn gan yr ysbyty.

## Y cyd-destun gweithredol a pholisi

Mae [Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2018-19](#) yn cael ei ddefnyddio i fesur beth a gyflawnir yn ystod 2018-19.

Dyma'r targedau ar gyfer yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth (safonau gweithredu ar gyfer yr amseroedd aros hiraf):

- 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a chael triniaeth
- Dim cleifion yn aros yn hwy na 36 wythnos am driniaeth

## Defnyddwyr a sut defnyddir y data

Mae dealltwriaeth o dueddiadau amseroedd aros yn hanfodol i'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol.

Dyma brif ddefnyddwyr ystadegau yn ein barn ni:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru
- GIG Cymru
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Y cyfryngau
- Dinasyddion unigol.

Defnyddir y ystadegau mewn ffyrdd amrywiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Cyngor i Weinidogion
- Asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau/safonau
- Fel sail i brosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd
- Fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer penderfyniadau atgyfeirio gan feddygon teulu a rhoi cyngor i gleifion wrth eu hatgyfeirio ar gyfer gwasanaethau diagnostig neu therapi
- Cyfrannu at erthyglau newyddion am amseroedd aros yng Nghymru
- Mae Byrddau Iechyd Lleol y GIG yn eu defnyddio i feincnodi eu hunain yn erbyn Byrddau Iechyd Lleol eraill
- Helpu i bennu'r gwasanaeth y gallai'r cyhoedd ei gael gan GIG Cymru.

Os ydych chi'n eu defnyddio ac yn teimlo nad ydy'r rhestr uchod yn eich cynnwys chi, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at [stats.healthinfo@gov.wales](mailto:stats.healthinfo@gov.wales).

## Defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol

Mae'r broses o gasglu data am amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn defnyddio data gweinyddol sydd ar systemau ysbytai o fewn byrddau iechyd lleol. Fel y manylir arno yn y paragraffau canlynol, mae'r byrddau iechyd yn cyflwyno data cyfanredol i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), sydd wedyn yn darparu'r data i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi. Mae'r data cyfanredol yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn ddilys, fel y disgrifir yn yr adrannau isod.

Rydym wedi defnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan [Becyn Cymorth ar gyfer Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol](#) Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gynnal asesiad cychwynnol o broffil risg y data cyfanredol a ddefnyddir i gynhyrchu'r datganiad am yr Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth.

Yn ein barn ni, risg ganolog sydd i'r data o ran eu hansawdd, ac maent yn ddata uchel eu proffil o ran diddordeb cyhoeddus. Y rhesymau am hyn yw bod safonau a diffiniadau sydd wedi'u diffinio'n dda ar waith ar gyfer y data a gasglwyd, ond cafodd y data eu casglu o nifer o safleoedd ysbyty ar draws byrddau iechyd lleol, ac efallai fod rhywfaint o amrywiad o ran sut casglwyd a phroseswyd y data mewn gwahanol safleoedd.

Yn ôl pecyn cymorth Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, mae hynny'n awgrymu dylem edrych am sicrwydd ehangach neu gynhwysfawr (A2/A3) mewn meysydd fel y broses gasglu, cyfathrebu â chyflenwyr data, dulliau sicrhau ansawdd, a dogfennau

## **Cryfderau a Chyfyngiadau'r data**

### **Cryfderau**

Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi'n aml ac mewn trefn er mwyn i ddefnyddwyr weld yr ystadegau pan maent yn gyfredol ac o bennaf ddiddordeb.

Mae gan yr allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi cael eu datblygu i ddiwallu angen defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru.

Mae safonau a diffiniadau clir wedi'u diffinio'n dda, ynghyd â chanllawiau atodol, ar gael yng [Ngeiriadur Data GIG Cymru](#), sy'n helpu i sicrhau cysondeb y data a gyflwynir gan bob bwrdd iechyd lleol ledled Cymru.

Defnyddiwyd ffynonellau data gweinyddol yn effeithlon er mwyn cynhyrchu allbynnau. Y ffynhonnell data gweinyddol a ddefnyddiwyd yw'r system gweinyddu cleifion sy'n casglu data demograffeg, cofnodion meddygol a gwybodaeth ddiagnostig ar gyfer cleifion yn ysbytai Cymru.

Cyhoeddir ystadegau manwl ar ein gwefan StatsCymru yn ôl bwrdd iechyd lleol, amser aros a math o wasanaeth arbenigol.

### **Cyfyngiadau**

Mae'r wybodaeth ar StatsCymru ar gyfer cynulleidfa fwy gwybodus, a does dim llawer o esboniad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol.

Does dim data wedi'u mapio.

Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a pholisïau gwahanol, nid yw gwneud cymariaethau uniongyrchol ar lefel y DU mor hawdd (gweler 'Cydylniant' yn ddiweddarach yn y ddogfen).

### **Cyffredinol**

Dylid cymryd gofal wrth gymharu ffigurau amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn fisol. Mae natur dymhorol yn berthnasol i fesurau perfformiad mewn cysylltiad ag amseroedd aros. Er enghraifft,

gall tywydd gwael effeithio ar allu gwasanaeth iechyd i gynnal ei gapasiti mewn perthynas â gofal dewisol. Gall y ffactorau hyn effeithio ar amseroedd aros a dylid eu hystyried wrth wneud cymariaethau dros amser.

## Y cylch prosesu data

### Casglu data

Mae'r data a gyflwynir yn defnyddio gwybodaeth reoli sy'n cael ei dal gan Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â rheoli cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio ar gyfer triniaeth mewn ysbyty. Darperir canllawiau i'r GIG yng Nghymru ynghylch sut dylid rheoli'r cleifion hynny a sut mae mesur ac adrodd ar y data perthnasol. Mae data'n cael eu cyflwyno'n fisol gan y Byrddau Iechyd Lleol drwy wasanaeth cyfnewid Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r broses casglu data wedi bod yn ei lle ers mis Ebrill 2007.

Mae gwybodaeth am y broses casglu data ar gyfer atgyfeirio am driniaeth ar gael yn [WHC\(2007\)014](#). Mae'n cynnwys cwmpas y gwaith casglu data, arweiniad ar fesur yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth a manylion y gwaith casglu gan Fyrddau Iechyd Lleol. Mae rhagor o fanylion ac enghreifftiau o'r ffordd y defnyddir y rheolau ar gael yn [WHC\(2007\)075](#).

Gwnaed rhagor o newidiadau i'r broses gasglu yn 2011, ac mae'r manylion hynny ar gael yma yn [DSCN 2011/07](#) ac yn adran [Cymaroldeb](#) yr adroddiad hwn.

Mae'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion mewnol ac allanol y tu allan i gwmpas yr Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn cael eu cofnodi gan Fyrddau Iechyd Lleol drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys pawb sy'n preswyllo yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n aros am driniaeth mewn ysbyty a ariennir gan y GIG. Nid yw'r cleifion y cyfeirir atynt ar y rhestrau aros hyn yn cael eu cynnwys yn y data ar amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth gan nad yw cwmpas y diffiniadau ar gyfer Atgyfeirio a Thriniaeth yn eu cynnwys. Mae'r data yma yn cael eu cyflwyno ar wahân yn y datganiad.

### Dilysu a gwirio

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn dilysu'r data gan ddefnyddio'u cyfleuster Dilysu yn y Tarddiad. Mae hyn yn caniatáu i'r Byrddau Iechyd Lleol wirio a chywiro eu data neu wneud sylwadau am y data, a darparu gwybodaeth gyd-destunol pan fo newidiadau annisgwyl wedi digwydd. Mae enghreifftiau o wiriadau dilysu yn cynnwys newidiadau o fis i fis, gwirio bod data ar gyfer pob maes triniaeth disgwylidig yn bresennol, gwirio i sicrhau bod y data o fewn goddefiannau sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw, gwirio â ffynonellau data eraill (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru) a gwirio bod codau dilys yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr holl feysydd.

Mae'r protocolau sicrhau ansawdd a ddilynir gan Adran Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru ar gael [yma](#).

Unwaith y bydd y tîm Ystadegau'r Boblogaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn derbyn y data, bydd yn destun rhagor o wiriadau dilysu a chadarnhau. Er enghraifft cynnal rhagor o wiriadau ar gysondeb rhifyddol; a gwirio tueddiadau yn y data. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o sylwadau

gan Fyrddau Iechyd Lleol i helpu gyda'r gwaith dehongli. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw ddata yn y cyflwyniadau, a gwneir unrhyw newidiadau gan y Byrddau Iechyd Lleol ac ailgyflwynir y data drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

## **Cyhoeddi**

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan y tîm Ystadegau'r Boblogaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn cael eu cynhyrchu drwy gynhyrchu wybodaeth a ddarperir gan y Byrddau Iechyd Lleol. Mae'n broses rhannol awtomataidd ond mae'r prif bwyntiau a'r sylwebaeth yn cael eu cynhyrchu ar wahân. Mae'r wybodaeth yn y datganiad yn cael ei gwirio yn erbyn y data a gyflenwyd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar StatsCymru yn cael ei chynhyrchu'n awtomatig.

Mae'r data a ddarperir ar gyfer y mis diweddaraf yn cael eu cyhoeddi fel data dros dro ac fe allant gael eu diwygio mewn diweddariadau yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i gyflwyno data diwygiedig os byddant yn gwneud rhagor o waith dilysu ar ôl cyflwyno.

Mae data'n cael eu cyhoeddi'n fisol yng [Nghrynodeb Perfformiad a Gweithgaredd y GIG](#) ac ar [StatsCymru](#). Mae [datganiad ystadegol](#) sy'n cynnwys sylwebaeth a dadansoddiad manylach yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

## **Newidiadau i'r datganiad ystadegol**

O fis Ebrill 2017 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyhoeddi ystadegau misol am berfformiad a gweithgarwch y GIG ar un diwrnod, a datganiadau dadansodol blynyddol yn hytrach na rhai misol. Ceir rhagor o wybodaeth yn niweddariad y Prif Ystadegydd. Rydym yn croesawu adborth ar y datganiad ar ei newydd wedd ac ar unrhyw ddadansoddiad pellach a fyddai o ddiddordeb.

## **Statws Ystadegau Gwladol**

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiaid â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiaid â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Datgelu a chyfrinachedd

Er bod rhai ffigurau bach yn y data a gesglir ac a gyflwynir, nid yw'r wybodaeth yn cael ei hystyried yn sensitif ac nid oes gwybodaeth adnabod yn cael ei chyflwyno.

Rydym yn glynu wrth ein [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#) ac egwyddor llywodraethu data elfen Dibynadwyedd y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [Adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Ansawdd

Mae'r tîm Ystadegau'r Boblogaeth, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn glynu wrth ein [strategaeth ansawdd](#) ac elfen Ansawdd y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn disgrifio chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn glynu wrthynt.

## Perthnasedd

*I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn bodloni anghenion y defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.*

Mae'r ystadegau'n cwmpasu pob agwedd ar amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ac fe'u defnyddir fel y mesur perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru - gweler [Y cyd-destun gweithredol a pholisi](#). Mae diddordebau eraill a defnydd arall o'r data hyn yn cael eu hamlinellu yn yr adran Defnyddwyr a sut defnyddir y data.

Rydym yn annog y rhai sy'n defnyddio'r ystadegau i gysylltu â ni er mwyn rhoi gwybod i ni sut maent yn defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau i fodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr, ond mae'r tablau a gyhoeddir yn y datganiad ac ar StatsCymru yn ceisio ateb y cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, lle bo'n bosibl, yn rhoi gwybod am y newidiadau ar y rhyngwrdd, mewn pwyllgorau ac ar rwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori'n ehangach â defnyddwyr. Rydym yn ceisio ymateb yn gyflym i newidiadau gan gydweithwyr polisi er mwyn sicrhau bod ein hystadegau'n aros yn berthnasol.

Rydym yn adolygu'n hallbynnau'n gyson ac yn croesawu adborth.

## **Cywirdeb**

*Yr agosrwydd rhwng canlyniad a amcangyfrifir a gwir werth (anhysbys)*

Gellir rhannu cywirdeb yn gyfeiliornadau samplu a chyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornad samplu. Mae cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn cynnwys pethau fel gwall cwmpas, gwall dim ymateb, gwall mesur, a gwall prosesu.

Mae hwn yn ddull casglu data sydd wedi'i hen sefydlu sy'n seiliedig ar ddata 100%, h.y. nid sampl.

Nid ydym eto wedi ymchwilio i gyfeiliornad samplu. Fodd bynnag, gallai gwallau prosesu ddigwydd lle mae clercod mewn ysbytai yn mewnbynnu data'n anghywir yn eu systemau gweinyddol, neu gallai gwallau mesur ddigwydd o ganlyniad i staff mewn ysbytai yn dehongli diffiniadau'n wahanol. I leihau cyfeiliornadau samplu, mae safonau a chanllawiau'n cael eu darparu am gasglu data. Mae Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru wedi adolygu a chymeradwyo'r safonau sy'n berthnasol i'r broses hon o gasglu data. Pan fo cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu yn effeithio ar y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu llunio barn ddeallus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau'n ymwneud â'r data.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, mae'r holl Fyrddau Iechyd Lleol yn darparu data ac felly does dim angen amcangyfrif y ffigurau. Lle defnyddir amcangyfrifon, a hynny oherwydd nad yw bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ar gyfer mis penodol, mae hynny'n cael ei nodi'n glir yn y datganiad.

Mae'r allbynnau'n cynnwys gwybodaeth allweddol am ansawdd o ran cwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn deall ac esbonio symudiadau yn y data a gwirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau a gyhoeddir yn gywir.



## Amcangyfrifon

Weithiau, nid yw byrddau iechyd lleol yn cyflwyno gwybodaeth gyflawn mewn pryd ar gyfer y datganiad. Pan fydd hyn yn digwydd, caiff amcangyfrif ei gynnwys yn y data a gyflwynir. Mae ffigurau sy'n cynnwys amcangyfrif yn cael eu marcio ag "(e)".

Mis	Disgrifiad
<p>Rhagfyr 2011 i fis Chwefror 2012 - llwybrau agored (yn aros)</p> <p>Rhagfyr 2011 i fis Mawrth 2012 - llwybrau caeedig (y rheini sydd wedi cael triniaeth)</p>	<p>Mae ffigurau mis Rhagfyr 2011 i fis Chwefror 2012 ar gyfer Aneurin Bevan ar gyfer y rheini sy'n aros i ddechrau triniaeth a'r rheini sydd wedi cael triniaeth, yn ogystal â ffigurau mis Mawrth 2012 ar gyfer y rheini sydd wedi cael triniaeth, yn cael eu hamcangyfrif gan ddefnyddio'u data ar gyfer mis Tachwedd 2011. Hefyd, nid yw'r data ers mis Ebrill 2012 ar gyfer y rheini sydd wedi cael triniaeth wedi cael eu dilysu'n llawn. Mae hyn yn dilyn rhoi System Gweinyddu Cleifion newydd ar waith ddiwedd 2011. Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd Aneurin Bevan wedi gallu rhedeg yr adroddiad i ddarparu ffigurau ar gyfer y llwybrau cleifion hynny a gafodd driniaeth ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf 2012, ac i osgoi peidio â chyflwyno unrhyw ffigurau, mae'r ffigurau ar gyfer y rheini a gafodd driniaeth a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer mis Mai 2012 wedi cael eu defnyddio fel amcangyfrifon.</p>
<p>Mehefin i fis Gorffennaf 2012 - llwybrau caeedig (y rheini sydd wedi cael triniaeth)</p>	<p>Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd Aneurin Bevan wedi gallu rhedeg yr adroddiad i ddarparu ffigurau ar gyfer y llwybrau cleifion hynny a gafodd driniaeth ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf 2012, ac i osgoi peidio â chyflwyno unrhyw ffigurau, mae'r ffigurau ar gyfer y rheini a gafodd driniaeth a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer mis Mai 2012 wedi cael eu defnyddio fel amcangyfrifon.</p>
<p>Mis Hydref 2015 - llwybrau agored (yn aros)</p>	<p>Nid oedd modd darparu ffigurau cywir ar gyfer meysydd Gwasanaethau Diagnostig a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd ar gyfer BILI Prifysgol Cwm Taf. Felly, mae ffigurau ar gyfer mis Medi 2015 wedi cael eu defnyddio fel amcangyfrifon.</p>
<p>Mis Tachwedd 2016 - llwybrau caeedig (y rheini sydd wedi cael triniaeth)</p>	<p>Nid oedd modd darparu ffigurau cywir ar gyfer mis Tachwedd 2016 ar gyfer llawdriniaeth bediatrig ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Felly, mae ffigurau ar gyfer mis Hydref 2016 wedi cael eu defnyddio fel amcangyfrifon.</p>
<p>Mis Ebrill 2017 - llwybrau agored (yn aros).</p>	<p>Nid oedd modd darparu ffigurau cywir ar gyfer meysydd Gwasanaethau Diagnostig a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd ar gyfer BILI Prifysgol Cwm Taf. Felly, mae ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2017 wedi cael eu defnyddio fel amcangyfrifon.</p>

## Diwygiadau

Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â thablau StatsCymru bob mis, a bydd unrhyw ddiwygiadau sylweddol yn cael eu nodi ar dudalen pennawd y crynodeb.

Mae'r nodiadau ar ddiwedd y datganiad yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr a yw'r allbynnau wedi cael eu diwygio ai peidio (nodir gyda 'r'). Byddwn hefyd yn rhoi syniad o faint y diwygiad rhwng y datganiad diweddaraf a'r datganiad blaenorol. Mae data'n cael eu diwygio am nifer o resymau: data'n cael eu dychwelyd yn hwyr, amcangyfrifon anghywir neu ôl-ddata'n cael eu diwygio.

Os digwydd i ddata anghywir gael eu cyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael gwybod yn unol â threfniadau Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau Llywodraeth Cymru.

## Amseroldeb a phrydlondeb

*Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddwyd y data mewn gwirionedd a'r dyddiad cyhoeddi a oedd wedi'i nodi i gychwyn*

Mae'r holl allbynnau'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer drwy gyhoeddi ymlaen llaw ddyddiad y cyhoeddi ar galendr l'w cyhoeddi cyn hir ar ein gwefan. Yn ogystal, petai angen gohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn trefniadau Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod amser perthnasol. Mae data ar gyfer safle diwedd y mis yn cael eu cyhoeddi tua chwe wythnos ar ôl y dyddiad cyfeirio. Mae hyn yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd wneud gwaith dilysu sylweddol.

## Hygyrchedd ac eglurder

*Mae hygyrchedd yn cyfeirio at ba mor hawdd ydyw i'r defnyddwyr gael gafael ar y data, a hefyd ym mha fformat(au) y mae'r data ar gael ynddynt ac a oes gwybodaeth ategol ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metaddata, y darluniadau a'r cyngor atodol.*

Mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi mewn dull hygyrch a threfnus ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar y dyddiad cyhoeddi. Nodir ymlaen llaw y bydd yr ystadegau yn cael eu cyhoeddi. Mae porthydd RSS yn tynnu sylw defnyddwyr sydd wedi cofrestru at y cyhoeddiad hwn. Ar yr un pryd, mae'r datganiadau'n cael eu cyhoeddi ar [Hyb Cyhoeddiadau Ystadegau Gwladol](#). Mae'r holl ddatganiadau ar gael i'w llwytho i lawr am ddim.

Mae data manylach ar gael ar yr un pryd ar wefan StatsCymru a gellir eu trin ar-lein neu eu llwytho i lawr ar ffurf taenlenni i'w defnyddio all-lein.

Anelwn at ddefnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â pholisi hygyrchedd Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth am yr ystadegau ar gael drwy gysylltu â'r staff perthnasol sy'n cael eu nodi ar y datganiad neu drwy [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru)

## Cymaroldeb

*I ba raddau y mae modd cytuno ar ddata dros amser a pharth.*

Pan fo'r data a ddarperir yn newid, caiff hyn ei ddangos yn glir yn yr allbynnau. Lle ceir rhybudd ymlaen llaw o newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Er enghraifft, pan wnaethpwyd newidiadau technegol i amseroedd aros ym mis Hydref 2010, esboniwyd hyn yn glir yn y datganiad a chyhoeddwyd nodyn technegol hefyd a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion. Mae crynodeb o newidiadau dros amser wedi'i ychwanegu at y tabl isod.

Mae gwybodaeth debyg ar gael o rannau eraill o'r DU ond nid oes modd cymharu'r data yn llwyr oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal - gweler Cydlyniant isod.

Mae diffiniadau a safonau y cytunwyd arnynt o fewn Cymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws y Byrddau Iechyd Lleol.

Mae'r gyfres amser yn y bwletin blynyddol yn dechrau o fis Medi 2011. Y rheswm am hyn yw bod byrddau iechyd lleol o'r dyddiad hwn ymlaen wedi cyflwyno ffurflen gyfun ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn hytrach na phrif ffurflen ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth a ffurflen ar gyfer achosion yn ymwneud â'r galon, fel yr oeddynt wedi'i wneud yn flaenorol (gweler y tabl).

### Crynodeb o newidiadau dros amser

Yn effeithiol o'r dyddiad	Disgrifiad
1 Ebrill 2007	Fel rhan o Mynediad 2009 - Cyflawni Llwybr Gofal Claf 26 wythnos, y broses Atgyfeirio a Thriniaeth newydd Dechreuwyd casglu data misol am amseroedd ar 1 Ebrill 2007. <a href="#">DSCN (2007) 08</a>
1 Ebrill 2008	Daeth cod Bwrdd Iechyd Lleol yn orfodol wrth gasglu. <a href="#">DSCN (2008) 01.</a>
1 Hydref 2009	Cafodd Byrddau Iechyd Lleol newydd eu sefydlu. <a href="#">DSCN (2009) 09</a>
1 Medi 2011	Daeth y broses o gasglu data ar gyfer amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ac amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer achosion yn ymwneud â'r galon i ben a sefydlwyd proses newydd ar gyfer Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth newydd (Cyfun) sy'n cynnwys amseroedd aros ar gyfer achosion yn ymwneud â'r galon. <a href="#">DSCN (2011) 07</a>

## Cydlyniant

*I ba raddau y mae data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.*

Bob mis mae'r data i gyd yn cael eu casglu o'r un ffynonellau ac mae'r gwaith yn glynu wrth y safon genedlaethol. Mae'r gwaith hefyd yn gydlynus o fewn ac ar draws sefydliadau yng Nghymru.

Mae gwledydd eraill y DU hefyd yn mesur amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp yw edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r gwaith o gymharu data diagnostig rhwng y gwledydd ar gael yma: [Ystadegau Amseroedd Aros yn y Maes Iechyd](#).

## Lloegr

Yn Lloegr, mae'r ystadegau ar yr amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn cael eu cyhoeddi'n fisol ac yn flynyddol gan y [GIG yn Lloegr](#).

Mae'r data'n mesur yr amseroedd aros mewn wythnosau, wedi'u rhannu yn ôl y swyddogaeth driniaeth. Mae'r swyddogaethau triniaeth yn seiliedig ar arbenigedd yr ymgynghorwyr. Mae hyd yr aros yn cael ei gofnodi yn ôl llwybr gofal sydd wedi'i gwblhau neu heb ei gwblhau. Mae'r llwybrau gofal sydd wedi'u cwblhau yn cael eu rhannu yn dibynnu ar a gafodd y claf ei dderbyn i'r ysbyty neu beidio.

Yn Fframwaith Gweithredu'r GIG ar gyfer 2012-13, mae'r safonau gweithredol yn 90 y cant ar gyfer cyfnodau aros sydd wedi'u cwblhau ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a 95 y cant ar gyfer y cleifion nad ydynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty fel y nodir yng Nghyfansoddiad y GIG. Er mwyn cynnal y gwaith o gyflawni'r safonau hyn, bydd angen i ymddiriedolaethau sicrhau bod 92 y cant o gleifion ar lwybr gofal nad yw wedi'i gwblhau yn aros ddim mwy nag 18 wythnos.

## Yr Alban

Yn yr Alban, mae ystadegau ar yr amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth wedi cael eu cyhoeddi bob chwarter gan [Adran Gwasanaethau Gwybodaeth \(ISD\) yr Alban](#) ers dechrau 2011.

Yn y ddogfen Better Health Better Care in Scotland, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007, roedd ymrwymiad: "the 18 week Referral To Treatment (RTT) standard will address the whole patient care pathway, from receipt of a GP referral, up to the point at which each patient is actually admitted to hospital for treatment".

Mae Llywodraeth y r Alban wedi penderfynu y dylai'r targed hwn o 18 wythnos gael ei gyflawni ar gyfer o leiaf 90% o gleifion. Mae'r targed hwn yn berthnasol er enghraifft, ar gyfer y gyfran weddol

fach o achosion lle nad yw'n briodol yn glinigol i'r claf gael ei weld a'i drin o fewn 18 wythnos a hefyd er mwyn gallu rhoi ystyriaeth i'r cynnydd eithriadol yn y galw am wasanaethau gofal eilaidd.

Mae'r data yma yn cael eu datblygu o hyd. Mae Byrddau'r GIG yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ac ISD i ddiweddarau systemau TG a systemau eraill er mwyn parhau i wella'r cysylltiad rhwng pob cam ar daith claf i gefnogi'r gwaith o fesur ac adrodd yn erbyn y targed 18 wythnos. Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio a dehongli'r data hyn ar y cam datblygol hwn.

### **Gogledd Iwerddon**

Yng Ngogledd Iwerddon, mae ystadegau ar amseroedd aros yn cael eu cyhoeddi bob chwarter gan yr [Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd \(DHSSPS\)](#).

Yn hytrach nag amser cyffredinol ar gyfer yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer cleifion, mae data'n cael eu cyhoeddi ar nifer y cleifion sy'n aros ar ddiwedd bob chwarter am:

- apwyntiad cyntaf fel claf allanol
- apwyntiad cyntaf gyda Gwasanaeth Asesu Clinigol a Thriniaeth Integredig (ICATS);
- gwasanaeth diagnostig; a
- derbyn i ysbyty am driniaeth fel claf mewnol.

Mae'r targed amseroedd aros Gweinidogol ar gyfer 2017-18, ar gyfer amseroedd aros fel claf allanol yng Ngogledd Iwerddon, yn dweud fel a ganlyn:

- Erbyn mis Mawrth 2018, ni ddylai 55% o gleifion fod yn aros mwy nag 13 wythnos am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd, ac ni ddylai'r un claf fod yn disgwyl mwy na 52 wythnos
- Erbyn mis Mawrth 2018, ni ddylai 50% o gleifion fod yn aros mwy na 9 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol; ac ni ddylai'r un claf fod yn disgwyl mwy na 52 wythnos
- Erbyn mis Mawrth 2018, ni ddylai 75% o gleifion fod yn aros mwy nag 9 wythnos am brawf diagnostig, ac ni ddylai'r un claf fod yn disgwyl mwy na 26 wythnos
- O fis Ebrill 2017, dylid rhoi gwybod am yr holl brofion diagnostig brys o fewn dau ddiwrnod i wneud y prawf.

### **Lledaenu gwybodaeth**

Mae'r holl ddata o safon ddigonol yn dilyn y gwaith gwirio sylweddol a ddisgrifiwyd uchod i gyfiawnhau eu cyhoeddi. Mae'r negeseuon lefel uchel yn cael eu cyhoeddi'n fisol yng Nghrynodeb o Berfformiad a Gweithgarwch y GIG, ac yn flynyddol mewn datganiad mwy manwl.

Mae data mwy manwl yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan rhyngweithiol, StatsCymru. Mae cyd-destun ychwanegol a thueddiadau hirdymor hefyd yn cael eu diweddarau'n fisol yn ein dangosfwrdd rhyngweithiol yma.

## **Dolenni defnyddiol**

[Geiriadur Data GIG Cymru](#)

[Geiriadur Data GIG Cymru: tudalennau ar Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth](#)

Cylchlythyron Iechyd Cymru ar Atgyfeirio am Driniaeth: [WHC\(2007\)014](#), [WHC\(2007\)075](#),

[Datganiad Ystadegol ar Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth](#)

[Datganiad Ystadegol ar y Gwasanaethau Diagnostig a Therapi](#)

[Cwestiynau Cyffredin mewn cysylltiad ag Amseroedd Aros ar gyfer Gwasanaethau'r GIG](#)

[StatsCymru](#)

[Gwella Ansawdd Gwybodaeth](#)

[Safonau Gwybodaeth y GIG](#)

[Polisiâu Ansawdd Data Byrddau Iechyd Lleol](#)

[Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol](#)

## **Gwerthuso**

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am unrhyw rai o'n hystadegau. Cysylltwch â ni ar [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru)

Cynhyrchwyd gan: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd ddiwethaf: Awst 2018